

Rhif: 40436



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Cymru Fwy Cyfartal: Atgyfnerthu Partneriaeth Gymdeithasol

Ebrill 2020

Geirfa	2
Crynodeb Gweithredol	3
1. Cyflwyniad	6
2. Atgyfnerthu partneriaeth gymdeithasol trwy ddeddfwriaeth statudol	9
3. Cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i sicrhau Cymru fwy cyfartal	15
4. Deddfwriaeth i orfodi cydymffurfiaeth	20
5. Meysydd ar gyfer deddfwriaeth	24
6. Costau sy'n gysylltiedig â'r cynigion	27
7. Effeithiau ar y Gymraeg	31
8. Themâu ychwanegol nad ydynt yn cael sylw yn y cwestiynau ymgynghori	35
Atodiad A – Rhestr o sefydliadau a ymatebodd	37

Geirfa

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
ASPBs	Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad
CfED	Cyngor Datblygu'r Economi
GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol
PSB	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
PSED	Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus
RPB	Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
SPC	Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol
BBaCh	Busnesau Bach a Chanolig
VAWDASV	Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
WGSB	Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru
WPC	Cyngor Partneriaeth y Gweithlu
WSED	Dyletswyddau Cydraddoldeb Cymru
WTUC	Cyngres Undebau Llafur Cymru

Crynodeb Gweithredol

Ym mis Tachwedd 2019, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad i geisio barn ar gynigion ar gyfer Bil Partneriaeth Gymdeithasol i atgyfnerthu'r trefniadau yng Nghymru ar gyfer partneriaeth gymdeithasol a darparu fframwaith i ystyried a sicrhau cydraddoldeb cymdeithasol gwell ar gyfer gweithwyr yng Nghymru ar draws yr economi.

Comisiynwyd OB3 Research gan Lywodraeth Cymru i gydlynu'r ymatebion a dderbyniwyd fel rhan o'r ymarferiad ymgynghori. Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar y safbwyntiau a fynegwyd mewn 55 o ymatebion i'r ymgynghoriad.

Nodir y canfyddiadau allweddol isod:

Yr angen am ddeddfwriaeth

- Roedd tua hanner yr ymatebwyr yn croesawu'r cynigion i atgyfnerthu deddfwriaeth partneriaeth gymdeithasol gan y byddai'n atgyfnerthu'r ethos presennol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ac yn gwella arferion gwaith teg
- Roedd traean arall yn cytuno â'r egwyddor ond yn codi pryderon neu faterion amrywiol sy'n gofyn am fwy o eglurder o ran sail resymegol gliriach ynglŷn â'r hyn y gellid ei gyflawni drwy ddeddfwriaeth newydd na ellid ei gyflawni o fewn y trefniadau presennol
- Hefyd, roedd yr ymatebwyr yn cwestiynu sut y byddai'r cynigion yn gweithio ochr yn ochr â rheoliadau a deddfwriaeth bresennol, yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cydraddoldeb 2010
- Ar y cyfan, croesawyd sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau am y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn ymwneud â'i aelodaeth, a'r prif fater a godwyd oedd diffyg cynrychiolaeth o'r trydydd sector a'r sector gwirfoddol.

Cefnogi Llywodraeth Cymru i sicrhau Cymru fwy cyfartal

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn y byddai atgyfnerthu trefniadau partneriaeth gymdeithasol yn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i sicrhau Cymru fwy cyfartal
- Mynegwyd barn gref bod angen i gynigion roi mwy o ystyriaeth i (i) sicrhau bod dulliau partneriaeth gymdeithasol mor gynhwysol â phosibl (ii) grwpiau gwarchoddedig a'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod o dan anfantais ym maes cyflogaeth a (iii) y trydydd sector, a'r gweithlu gwirfoddol, sy'n llai tebygol o gael eu cefnogi gan undebau llafur

- Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r cynigion i roi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i roi sylw dyledus i bartneriaeth gymdeithasol a defnyddio grym y pwrs cyhoeddus i hyrwyddo partneriaeth gymdeithasol.

Deddfwriaeth i orfodi cydymffurfiaeth

- Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr naill ai'n anghytuno bod angen deddfwriaeth i orfodi penderfyniadau neu'n codi pryderon ynglŷn â sut y byddai'n gweithio'n ymarferol, gan ofyn am ragor o wybodaeth a rhagor o waith datblygu ar yr agwedd hon ar y ddeddfwriaeth cyn y gallent ei chefnogi
- Roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod gorfodaeth yn mynd yn erbyn egwyddorion craidd partneriaeth, ac roedd yn well ganddynt ddull sy'n ysgogi cydymffurfiaeth
- Hefyd, roedd yr ymatebwyr yn pryderu am y posibilrwydd y gallai canlyniadau anfwriadol ddeillio o orfodi cydymffurfiaeth, gan gynnwys cosbau, yn enwedig mewn achosion lle y gallai gwasanaethau cyhoeddus gael eu heffeithio'n negyddol, a lle y byddai sefydliadau llai yn ysgwyddo baich rhy drwm
- Roedd yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r angen am ddeddfwriaeth i orfodi cydymffurfiaeth yn dymuno i'r ddeddfwriaeth fod yn gymesur ac yn rhesymol, gyda chosbau'n rhan o becyn cymorth ehangach o ddulliau gorfodi i'w defnyddio fel dewis olaf.

Meysydd ar gyfer deddfwriaeth

- Roedd bron i ddwy ran o dair o'r ymatebwyr yn teimlo bod y meysydd cywir yn cael eu hystyried ar gyfer deddfwriaeth
- Mae angen mwy o eglurder ynglŷn â rôl, cwmpas ac aelodaeth y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol
- Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cytuno ag egwyddorion arfaethedig y Bartneriaeth Gymdeithasol a'r ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol a hyrwyddo amcanion gwaith teg
- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r ddyletswydd ar gyfer caffael cymdeithasol yn credu bod ganddi'r potensial i gefnogi cymunedau Cymru a darparu cyfleoedd i fusnesau (yn enwedig BBaCh) yng Nghymru cyn belled â'i bod yn gadarn ac nid yn rhy anhyblyg.

Costau cysylltiedig

- Nododd ymatebwyr nifer o swyddogaethau sefydliadol ychwanegol fel caffael, gweinyddu, monitro ac adrodd y byddai angen eu hariannu

- Bydd angen cyflogi a hyfforddi staff ychwanegol i ymgymryd â thasgau cydlynu a chynrychioli, fel bod pob un o'r sefydliadau partner cymdeithasol yn gallu ymgysylltu â'r agenda
- Bydd cyflwyno'r Cyflog Byw Go lawn yn creu costau ychwanegol i sefydliadau, yn enwedig darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol
- Roedd yr ymatebwyr o'r farn y dylai'r costau ychwanegol hyn gael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru.

Yr Iaith Gymraeg

- Roedd yr ymatebwyr o'r farn y gallai'r cynigion gael effaith gadarnhaol, yn hytrach na negyddol, ar yr iaith Gymraeg, a nodwyd sawl cyfle posibl
- Gwnaed galwad ar i'r Gymraeg gael ei hadlewyrchu'n benodol o fewn deddfwriaeth partneriaeth gymdeithasol
- Dylai prosesau caffael partneriaeth gymdeithasol nodi'r gofynion penodol o safbwynt darpariaeth a gwasanaethau Gymraeg.

1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Tachwedd 2019, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad i geisio barn ar gynigion ar gyfer Bil Partneriaeth Gymdeithasol i atgyfnerthu'r trefniadau yng Nghymru ar gyfer partneriaeth gymdeithasol a darparu fframwaith i ystyried a sicrhau cydraddoldeb cymdeithasol gwell ar gyfer gweithwyr yng Nghymru ar draws yr economi. Byddai'r mesurau arfaethedig yn creu sylfeini statudol ar gyfer partneriaeth gymdeithasol fel rhan o ymateb ehangach y Llywodraeth i'r Comisiwn Gwaith Teg a gyflwynodd argymhellion ar sut i hyrwyddo arferion gwaith teg ledled Cymru. Amcan y Bil Partneriaeth Gymdeithasol arfaethedig yw atgyfnerthu trefniadau a chefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i greu Cymru fwy cyfartal drwy:

- sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol
- rhoi dyletswydd ar gyrf cyhoeddus i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol a hyrwyddo amcanion gwaith teg, ac
- ei gwneud yn ofynnol i gyrf cyhoeddus penodedig lunio strategaeth gaffael yn unol â chanllawiau statudol.

1.2 Gofynnodd Llywodraeth Cymru i randdeiliaid a phartïon eraill â diddordeb rannu eu safbwyntiau ar y papur deddfwriaethol arfaethedig mewn papur gwyn o'r enw 'Cymru Fwy Cyfartal: Atgyfnerthu Partneriaeth Gymdeithasol'. Daeth y broses ymgynghori i ben ar 9 Ionawr 2020¹. Rhoddwyd cyfle i gyfranwyr ymateb drwy gyfres o 5 cwestiwn ymgynghori.

1.3 Comisiynwyd OB3 Research gan Lywodraeth Cymru i gydlynu'r ymatebion a dderbyniwyd fel rhan o'r ymarferiad ymgynghori. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig dadansoddiad annibynnol o'r ymatebion a dderbyniwyd, a bydd yn cael ei ddefnyddio i lywio gwaith Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid.

Methodoleg a dadansoddiad

1.4 Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar safbwyntiau a fynegwyd mewn 55 o ymatebion i'r ymgynghoriad:

- cyflwynwyd 40 o ymatebion fel cyflwyniadau ysgrifenedig
- derbyniwyd 15 o ymatebion trwy arolwg ar-lein.

1.5 Mae proffil y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad wedi'i nodi yn Nhabl 1.1, yn seiliedig ar waith categoriedd gan OB3 Research.

¹ Y dyddiad cau gwreiddiol ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad oedd 2 Ionawr 2020 ond fe gafodd ei ymestyn oherwydd cyfnod y Nadolig/Blwyddyn Newydd.

- 1.6 Rhoddwyd yr un pwysoliad i bob ymateb o fewn y dadansoddiad hwn, waeth pa ddull ymateb a ddefnyddiwyd nac i ba raddau y mae cyflwyniad yn cynrychioli barn unigolyn, sefydliad neu grŵp aelodaeth ehangach. Hefyd, mae'n werth nodi bod rhai ymatebion, fel ymatebion gan sefydliadau sy'n cynnwys aelodau, partneriaethau a rhai cyflwyniadau gan y trydydd sector, yn cynrychioli barn nifer fwy o sefydliadau neu aelodau er nad oes modd nodi i ba raddau y mae safbwyntiau'n amrywio ymysg yr aelodau.

Tabl 1.1: Proffil yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad

Sector	Nifer yr ymatebion
Sector cyhoeddus	18
Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru	5
Awdurdod Lleol	6
Bwrdd Iechyd neu Ymddiriedolaeth	2
Corff arall yn y sector cyhoeddus	5
Trydydd sector	15
Elusen neu sefydliad nid-er-elw	6
Sefydliad aelodaeth	9
Arall	22
Undeb Llafur/Corff Proffesiynol	11
Unigolyn	6
Anhysbys/ Arall	5
Cyfanswm	55

- 1.7 O ran fformat yr ymatebion a dderbyniwyd:
- roedd 49 o'r ymatebion yn rhoi atebion penodol i brif gwestiynau'r ymgynghoriad. Atebodd 44 o'r ymatebwyr bob un o'r pum cwestiwn, atebodd dau bedwar o'r cwestiynau, atebodd un dri chwestiwn, atebodd un ddau gwestiwn ac atebodd un ymatebydd un o gwestiynau'r ymgynghoriad
 - cafwyd un ar hugain o ymatebion i'r cwestiynau penodol yn ymwneud â'r iaith Gymraeg
 - ni wnaeth chwe chyflwyniad ysgrifenedig ymateb yn uniongyrchol i gwestiynau'r ddogfen ymgynghori. Mae'r cyflwyniadau cyffredinol hyn wedi'u codio a'u hystyried gan ymchwilyr yn erbyn y cwestiynau mwyaf perthnasol a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori

- darparodd 15 o ymatebwyr wybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad
- roedd hyd pob cyflwyniad ysgrifenedig yn amrywio o ychydig frawddegau i 28 tudalen o hyd.

Strwythur yr adroddiad

1.8 Mae'r adroddiad hwn yn cydlynu'r pwyntiau allweddol a wnaed gan ymatebwyr. Mae wedi'i strwythuro i gyfateb i'r pum cwestiwn craidd. Mae adran arall yn ystyried ymatebion mewn perthynas â chwestiwn penodol am yr effaith ar y Gymraeg, ac mae'r adran olaf yn ystyried unrhyw themâu neu sylwadau a godwyd nad oeddent yn cyfateb yn uniongyrchol i unrhyw un o gwestiynau'r ymgynghoriad. Felly, cyflwynir yr adroddiad fel a ganlyn:

- mae Pennod 2 yn ystyried y cynigion i atgyfnerthu partneriaeth gymdeithasol trwy gyflwyno deddfwriaeth i roi sail statudol iddynt (*Cwestiwn 1 yn yr Ymgynghoriad*)
- mae Pennod 3 yn trafod sut y gallai atgyfnerthu trefniadau ar gyfer partneriaeth gymdeithasol ategu uchelgais Llywodraeth Cymru i sicrhau Cymru fwy cyfartal (*Cwestiwn 2 yn yr Ymgynghoriad*)
- mae Pennod 4 yn dadansoddi safbwyntiau ynglŷn ag a oes angen deddfwriaeth i orfodi penderfyniadau a wneir trwy bartneriaeth gymdeithasol (*Cwestiwn 3 yn yr Ymgynghoriad*)
- mae Pennod 5 yn ystyried a yw'r ddeddfwriaeth yn cwmpasu'r meysydd cywir i atgyfnerthu partneriaeth gymdeithasol a sefydlu egwyddorion gwaith teg ledled Cymru (*Cwestiwn 4 yn yr Ymgynghoriad*)
- mae Pennod 6 yn dadansoddi unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r cynigion (*Cwestiwn 5 yn yr Ymgynghoriad*)
- mae Pennod 7 yn ystyried unrhyw effeithiau posibl y penderfyniadau polisi ar y Gymraeg
- mae Pennod 8 yn cynnwys dadansoddiad o unrhyw themâu neu faterion a godwyd a oedd y tu allan i gylich gwaith uniongyrchol cwestiynau'r ymgynghoriad.

2. Atgyfnerthu partneriaeth gymdeithasol trwy ddeddfwriaeth statudol

Canfyddiadau allweddol

- Roedd tua hanner yr ymatebwyr yn croesawu'r cynigion i atgyfnerthu deddfwriaeth partneriaeth gymdeithasol gan y byddai'n atgyfnerthu'r ethos presennol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ac yn gwella arferion gwaith teg
- Roedd traean arall yn cytuno â'r egwyddor ond yn codi pryderon neu faterion amrywiol sy'n gofyn am fwy o eglurder o ran sail resymegol gliriach ynglŷn â'r hyn y gellid ei gyflawni drwy ddeddfwriaeth newydd na ellid ei gyflawni o fewn y trefniadau presennol
- Hefyd, roedd yr ymatebwyr yn cwestiynu sut y byddai'r cynigion yn gweithio ochr yn ochr â rheoliadau a deddfwriaeth bresennol, yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cydraddoldeb 2010
- Ar y cyfan, croesawyd sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau am y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn ymwneud â'i aelodaeth, a'r prif fater a godwyd oedd diffyg cynrychiolaeth o'r trydydd sector a'r sector gwirfoddol .

2.1 Mae'r bennod hon yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 1 yn y ddogfen ymgynghori: *'A ydych yn cytuno â'r cynigion i atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer partneriaeth gymdeithasol drwy gyflwyno deddfwriaeth i roi sail statudol iddynt?'* Mae'n ymdrin yn benodol â'r manteision a'r pryderon a godwyd ynglŷn â chynnwys dyletswyddau ar gyfer partneriaeth gymdeithasol mewn deddfwriaeth. Hefyd, mae'n trafod y sylwadau a wnaed mewn perthynas ag eglurder a diben y ddeddfwriaeth arfaethedig, sut y gellir atgyfnerthu partneriaeth gymdeithasol, manteision ymddangosiadol partneriaeth gymdeithasol a'r hyn y gellir ei gyflawni trwy ddeddfwriaeth.

2.2 Mae Tabl 2.1 yn dangos bod tua hanner yr ymatebwyr yn hapus i weld cynigion y Papur Gwyn yn cael eu gosod mewn deddfwriaeth. Cafwyd ateb pendant, cadarnhaol ganddynt yn y cyswllt hwn. Roedd 16 arall yn fodlon ar y cyfan ag egwyddorion partneriaeth gymdeithasol sydd wedi'u hamlinellu yn y Papur Gwyn, ond roeddynt wedi mynegi rhai pryderon ynglŷn â'r angen am ddeddfwriaeth statudol i gyflawni'r amcanion.

Tabl 2.1: Ymatebwyr a oedd yn dymuno cynigion i atgyfnerthu partneriaeth gymdeithasol drwy gyflwyno deddfwriaeth i roi sail statudol iddynt

A ydych yn cytuno â'r cynigion i atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer partneriaeth gymdeithasol drwy gyflwyno deddfwriaeth i roi sail statudol iddynt?	Nifer yr ymatebwyr
Ydw	28
Nac ydw	8
Aneglur/dim ateb pendant	16
Dim ymateb	3
Cyfanswm	55

2.3 Roedd llawer o ymatebwyr yn ystyried bod rhoi sail statudol i bartneriaeth gymdeithasol yn gynnig cadarnhaol. Nodwyd sawl rheswm am hyn gan gynnwys:

- atgyfnerthu'r **'ethos o bartneriaeth gymdeithasol sydd wedi'i hen sefydlu** eisoes ledled y sector cyhoeddus yng Nghymru'
- dileu 'unrhyw ddisgresiwn i weithredu neu anwybyddu arferion gwaith teg' a sicrhau 'cysondeb gwell ' ar gyfer pob gweithiwr yn economi Cymru
- darparu 'mwy o degwch cymdeithasol' a **'mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn y gweithle'** gan mai 'dim ond trwy ddeddfwriaeth y mae cyflogwyr yn newid arferion'
- diogelu'r 'gwaith sydd wedi'i wneud hyd yn hyn sy'n sylfaen i fodel partneriaeth gymdeithasol' a 'symud yr agenda yn ei blaen' trwy **gryfhau ac ehangu'r trefniadau presennol**
- ysgogi'r 'newidiadau mewn diwylliant sefydliadol sydd eu hangen mewn sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru', gan gynnwys sefydliadau sy'n llai 'cydweithredol' mewn gwaith partneriaeth
- sicrhau **'mwy o weithredu a chynnydd** yn hytrach na hyrwyddo proses wirfoddol o fabwysiadu'r safonau gofynnol sylfaenol neu'r lefel gyffredin isaf'.

2.4 Hefyd, nododd ymatebwyr fod angen y ddeddfwriaeth hon yn awr er mwyn ymateb i heriau cymdeithasol ac economaidd sy'n wynebu Cymru gan gynnwys caledi parhaus, awtomeiddio **a'r angen i liniaru** effaith Brexit yn nhermau sicrhau hawliau gweithwyr a oedd wedi'u diogelu o dan Reoliadau'r UE, a'r effeithiau ehangach posibl ar swyddi a bywoliaeth.

Mae'r darpariaethau presennol yn effeithiol ac yn ddigonol

2.5 O'r rhai a oedd yn amlwg yn anghytuno â'r angen am ddeddfwriaeth statudol, y prif reswm a roddwyd oedd nad oedd angen deddfwriaeth a bod y darpariaethau presennol eisoes yn effeithiol ac yn ddigonol. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- 'mae'r elfen hon eisoes wedi'i gwreiddio mewn ymarfer ac nid oes angen dyletswydd statudol benodol ar wahân i wneud hynny'
- 'mae'r hyn rydym wedi'i wneud a'r hyn rydym yn ei wneud yn awr wedi gweithio'n dda heb fod angen deddfwriaeth'
- 'mae'n rhaid gofyn a oes angen hyn o ystyried y dull gweithredu llwyddiannus sydd eisoes ar waith ar gyfer partneriaeth gymdeithasol gan Lywodraeth Cymru'.

2.6 Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo na allent gyntuno â'r cynigion oherwydd diffyg eglurder ynglŷn â'r diffiniad o bartneriaeth gymdeithasol:

- 'nid yw partneriaeth gymdeithasol wedi'i diffinio yn y Papur Gwyn'
- 'mae'n anodd gwybod beth yw ystyr partneriaeth gymdeithasol yn y cyd-destun hwn'.

Angen am sail resymegol a chanlyniadau clir

2.7 Roedd ymatebwyr eraill o'r fam nad yw'r Papur Gwyn yn cynnwys sail resymeg glir ynglŷn â'r angen am ddeddfwriaeth statudol, ac roeddent yn credu bod modd cyflawni'r canlyniadau trwy ddulliau anstatudol:

- 'nid oes digon o wybodaeth am y cynnig i ni allu rhoi cefnogaeth lawn i'r Bil arfaethedig'
- 'nid yw'r Papur Gwyn wedi cyflwyno achos sy'n argyhoeddi o blaid deddfu ar gyfer newid yn y strwythur Partneriaeth Gymdeithasol. Nid oes digon o dystiolaeth ynglŷn ag a yw'r dulliau gwirfoddol presennol yn gweithio ai peidio'
- 'mae'r Papur Gwyn yn amlygu popeth sydd wedi'i gyflawni yng Nghymru trwy Bartneriaeth Gymdeithasol ac yna mae'n awgrymu cyflwyno hyn mewn deddfwriaeth heb esbonio pam y mae angen gwneud hynny'
- 'nid yw'n glir pa broblem y mae'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn ceisio'i datrys a pham mae angen deddfwriaeth ar gyfer strwythur'
- 'nid yw'n glir a fydd deddfwriaeth yn atgyfnerthu'r fframweithiau presennol ac a oes modd cyflawni hyn mewn ffyrdd eraill sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau'.

2.8 Er bod llawer o'r ymatebwyr yn awyddus i nodi eu bod yn cytuno'n gryf ag egwyddorion partneriaeth gymdeithasol, roeddent yn dymuno codi materion penodol yn ymwneud ag agweddau ar y ddeddfwriaeth arfaethedig sydd angen eu hystyried neu eu cryfhau cyn y gallant gefnogi fframwaith deddfwriaethol yn llwyr.

Cysylltiad â gofynion statudol a threfniadau partneriaeth presennol

2.9 Cwestiynodd yr ymatebwyr sut y byddai'r deddfwriaeth arfaethedig yn gweithio ochr yn ochr â deddfwriaeth bresennol, ac roeddent yn awyddus i sicrhau y gallai ychwanegu gwerth yn hytrach na gwanhau pwerau a chyfrifoldebau presennol. Roedd rhai'n pryderu am y posibilrwydd o ychwanegu deddfwriaeth ddiangen ychwanegol at faes darpariaeth sydd eisoes yn orlawn. Cyfeiriwyd yn benodol at y canlynol:

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** – credwyd bod rhywfaint o orgyffwrdd â'r nodau llesiant, yn benodol y darpariaethau yn y Ddeddf yn ymwneud â chaffael a'r defnydd o fuddion cymunedol
- **Deddf Gwasanaethau Gymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2016** – credwyd bod elfennau o'r deddf hon yn gorgyffwrdd â'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol arfaethedig 'o safbwynt cydraddoldeb cymdeithasol a gwella gwasanaethau cyhoeddus'
- **Deddf Cydraddoldeb 2010** – yn enwedig dyblygiad posibl elfennau sydd wedi'u cynnwys yn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn Rhan 1 o'r Ddeddf Cydraddoldeb a'r angen am alinio ac integreiddio gwell gyda'r dyletswyddau presennol gan gynnwys Dyletswyddau Cydraddoldeb Cymru (WSED) a'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV).

2.10 Nodwyd bod mabwysiadu'r **Cyflog Byw, y Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol a Thyloywder yn y Gadwyn Gyflenwi** a chyfranogiad mewn Fframweithiau Cyflog ledled y DU fel yr Agenda ar gyfer Newid yn berthnasol hefyd. Yn ogystal, roedd gofynion presennol ar rai cyrff cyhoeddus i ddatblygu Strategaeth Caethwasiaeth Fodern, Strategaeth Economaidd a Chynllun Cydraddoldeb Strategol yn cynnwys elfennau a allai orgyffwrdd â'r gofynion sy'n cael eu cynnig yn y Bil Partneriaeth Gymdeithasol.

Cyflwyno Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol newydd

2.11 Mynegodd tua deg o'r ymatebwyr eu cefnogaeth benodol i gyflwyno Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol newydd. Dim ond un ymatebydd a anghytunodd yn benodol, gan ddadlau yn hytrach dros ehangu fforymau presennol fel Cyngor Partneriaeth y Gweithlu neu Gyngor Datblygu'r Economi yn hytrach na sefydlu hunaniaeth newydd. O safbwynt cyfrifoldeb y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol newydd, roedd awgrymiadau ar gyfer ei gylch gwaith yn

cynnwys goruchwylio'r broses weithredu, darparu her a pharhau i ganolbwyntio ar werth cymdeithasol ar draws y sectorau.

- 2.12 Dadleuodd tri ymatebydd fod y cynigion yn methu â chydabod a chyfeirio at sut y byddai'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol newydd yn **ymwneud â strwythurau presennol** fel Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan fynegi pryder nad oes gan gyrrff o'r fath 'gynrychiolaeth undebau llafur ar hyn o bryd'. Roedd yr ymatebydd hwn eisiau gweld y ddeddfwriaeth yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Roedd ymatebydd arall yn cydnabod yr 'heriau hysbys sy'n gysylltiedig â gwaith partneriaeth rhwng cyrrff' fel yr amlygwyd yn yr Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ac awgrymodd y byddai angen i'r Mesur Partneriaeth Gymdeithasol, os yw'n mynd rhagddo, fod yn glir iawn ynglŷn â chwmpas dyletswyddau'r egwyddor bartneriaeth a sut mae'n wahanol i'r dyletswyddau presennol.
- 2.13 Roedd y prif bwyntiau a godwyd gan ymatebwyr mewn perthynas â'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol newydd arfaethedig yn ymwneud â'i gyfansoddiad a'i aelodaeth. Dadleuodd yr ymatebwyr yn gryf bod angen iddo fod mor gynhwysol â phosibl ac **yn gynrychioliadol o bob grŵp a sector**. Awgrymwyd y byddai cylch gwaith ehangach yn cryfhau'r trefniadau presennol ac y 'gallai sicrhau penderfyniadau sy'n fwy seiliedig ar wybodaeth ac yn fwy ystyrlon sy'n arwain at fwy o gyfranogiad'. Gwnaed cais arall i'r Cyngor beidio â bod yn 'rhy fiwrocraidaidd a chymhleth'.
- 2.14 Mynegwyd pryder y gallai cyfuno'r strwythurau presennol leihau'r 'cysylltiadau diwydiannol teirochrog cyffredinol sy'n bodoli ar hyn o bryd'. Roedd ymatebydd arall yn teimlo nad yw rôl undebau nad ydynt yn aelodau o'r TUC yn cael ei hystyried yn llawn. Yn yr un modd, roedd ymatebwr arall yn teimlo bod angen cydnabod a chynnwys fforymau sefydledig eraill ar gyfer llais torfol y gweithlu mewn unrhyw strwythurau partneriaeth gymdeithasol newydd yn absenoldeb undebau llafur.
- 2.15 Wrth gyfuno gwaith Cyngor Datblygu'r Economi a Chyngor Partneriaeth y Gweithlu dan nawdd Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol newydd, dadleuwyd yn gryf bod angen cynrychioli'r trydydd sector. Mynegwyd barn gref mewn o leiaf chwe ymateb ynglŷn ag absenoldeb cynrychiolaeth o'r trydydd sector/sector gwirfoddol yng nghwmpas yr aelodaeth a amlinellwyd ar gyfer y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, yn enwedig gan ei fod yn sector lle mae cyflogaeth yn llai tebygol o gael ei chynrychioli gan undebau llafur.
- 2.16 Galwodd dau ymatebydd yn benodol ar i **fusnesau cymdeithasol, y trydydd sector a sefydliadau gwirfoddol** gael eu cynrychioli yn y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol gan ychwanegu:

'dylai'r sectorau hyn gael eu cynnwys mewn trafodaethau a phenderfyniadau yn ymwneud â gwaith teg os ydym am gael effaith wirioneddol a chyrraedd pob rhan o Gymru'.

- 2.17 Roedd ymatebwyr o'r **sector preifat** yn teimlo y byddai angen i Lywodraeth Cymru fod yn hyderus y bydd y model partneriaeth gymdeithasol a amlinellir yn y Papur Gwyn 'yn fanteisiol i gyfran sylweddol o'r sector preifat'. Hefyd, nodwyd bod angen am fecanweithiau fel fforwm i'w galluogi i 'ymgysylltu'n uniongyrchol ar ddatblygu mesurau i gefnogi'r economi a chymunedau a darparu gwybodaeth am dueddiadau, heriau a chyfleoedd' o ystyried na fyddai Cyngor Datblygu'r Economi yn bodoli bellach i gyflawni'r swyddogaeth hon.
- 2.18 Roedd un ymatebydd o'r farn bod ymgysylltu â'r gymuned fusnes 'wedi bod yn gyfyngedig hyd yma ac rydym yn pryderu am y peryglon a allai ddeillio o hyn i bolisi o'r fath a'r posibilrwydd o'r polisi yn cael ei dderbyn ar lefel diwydiant'. Roedd ymatebydd arall yn teimlo bod meysydd datblygu economaidd a busnes yn parhau i fod yn fwy addas ar gyfer cysylltiadau dwyochrog yn hytrach na theirochrog, ac y dylai Llywodraeth Cymru alw 'fforwm busnes ar gyfer ymgysylltu'n uniongyrchol ' rhwng y gymuned fusnes a gweinidogion, ochr yn ochr ag unrhyw drefniadau newydd. Nid oedd un o'r ymatebwyr yn teimlo bod y ffaith nad yw Cyngor Datblygu'r Economi yn seiliedig ar ddeddfwriaeth wedi'i rwystro mewn unrhyw ffordd, ac y byddai angen cadw a diwygio Cyngor llai o ran maint o dan unrhyw system newydd 'er mwyn cadw fforwm ar gyfer deialog ddwywaith y flwyddyn rhwng busnes a llywodraeth' i drafod materion fel ardrethi busnes a rheoliadau amgylcheddol, na fyddent yn addas mewn cyfarfod Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol eang.
- 2.19 Awgrymwyd bod angen ystyried sut y gellid sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau yn aelodaeth y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, yn enwedig gan na fydd menywod yn cael eu cynrychioli'n dda ymysg uwch swyddogion yn y Llywodraeth, cyflogwyr neu undebau llafur, ac oherwydd bod 'llawer o fenywod yn gweithio mewn diwydiannau â chyflogau isel, yn gwneud gwaith o ansawdd gwael' a'u bod yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan gynnydd i sicrhau gwaith teg yng Nghymru.
- 2.20 Hefyd, roedd un ymatebydd am i'r sector cynghorau cymuned a thref gael ei gynrychioli yn y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol. Roedd dau ymatebydd arall yn dymuno sicrhau bod Addysg Uwch (AU) ac Addysg Bellach (AB) yn aelodau llawn a gweithredol o'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.

3. Cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i sicrhau Cymru fwy cyfartal

Canfyddiadau allweddol

- Roedd tri chwarter yr ymatebwyr o'r farn y byddai atgyfnerthu trefniadau partneriaeth gymdeithasol yn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i sicrhau Cymru fwy cyfartal
- Mynegwyd barn gref bod angen i gynigion roi mwy o ystyriaeth i (i) sicrhau bod dulliau partneriaeth gymdeithasol mor gynhwysol â phosibl (ii) grwpiau gwarchodedig a'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod o dan anfantais ym maes cyflogaeth a (iii) y trydydd sector, a'r gweithlu gwirfoddol, sy'n llai tebygol o gael eu cefnogi gan undebau llafur
- Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r cynigion i roi dyletswydd ar gyrrff cyhoeddus i roi sylw dyledus i bartneriaeth gymdeithasol a defnyddio grym y pwrs cyhoeddus i hyrwyddo partneriaeth gymdeithasol.

- 3.1 Mae'r bennod hon yn ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd i Gwestiwn 2 yn y ddogfen ymgynghori: *'A ydych yn cytuno y bydd atgyfnerthu trefniadau ar gyfer partneriaeth gymdeithasol yn ategu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i sicrhau Cymru fwy cyfartal?'* Mae'n trafod y dadleuon o blaid ac yn erbyn safbwyntiau ymatebwyr yn ogystal ag adborth ar fecanweithiau partneriaeth gymdeithasol presennol a'r cynigion ar gyfer sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol newydd cyn ystyried adborth ar ddefnyddio arian cyhoeddus i hyrwyddo partneriaeth gymdeithasol.
- 3.2 Mae Tabl 3.1 yn dangos bod tri chwarter yr ymatebwyr yn cefnogi'r cwestiwn hwn: nododd 41 o'r ymatebion yn benodol eu bod yn cytuno y byddai atgyfnerthu trefniadau partneriaeth gymdeithasol yn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i sicrhau Cymru fwy cyfartal. Roedd dau ymatebydd yn anghytuno, ac ni fynegodd y 12 arall fam benodol neu ni wnaethant ymateb i'r cwestiwn hwn.

Tabl 3.1: Ymatebwyr a gytunodd y bydd atgyfnerthu trefniadau ar gyfer partneriaeth gymdeithasol yn ategu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i sicrhau Cymru fwy cyfartal

A ydych yn cytuno y bydd atgyfnerthu trefniadau ar gyfer partneriaeth gymdeithasol yn ategu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i sicrhau Cymru fwy cyfartal?	Nifer yr ymatebwyr
Ydw	41
Nac ydw	2
Aneglur/dim ateb pendant	9
Dim ymateb	3
Cyfanswm	55

- 3.3 Roedd yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cwestiwn hwn yn dadlau bod partneriaethau cymdeithasol yn gyfrwng pwysig ar gyfer sicrhau mwy o gydraddoldeb ledled Cymru, yn enwedig o safbwynt mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn y gweithle a hyrwyddo cyflog teg a chyfartal. Yn gyffredinol, credwyd y byddai'r cynigion yn datblygu'r dulliau gweithredu sydd eisoes wedi'u mabwysiadu ledled sefydliadau'r sector cyhoeddus. Nododd ymatebydd arall fod cysylltiadau llafur da a sefydlog a gweithlu cynhyrchiol yn hanfodol ar gyfer unrhyw fodel partneriaeth gymdeithasol cynaliadwy.
- 3.4 Hefyd, dadleuodd yr ymatebwyr fod y cynigion yn gyfle i ddatblygu arferion cyflogaeth moesegol a dileu arferion cyflogaeth sy'n 'creu perygl ac ansicrwydd', gan nodi nad oes lle i arferion o'r fath mewn cyrff cyhoeddus. Hefyd, awgrymwyd yn gryf y byddai'r cynigion yn cefnogi 'dealltwriaeth gyffredin o'r holl agweddau sy'n seiliedig ar bartneriaeth gymdeithasol' a fyddai'n ddull allweddol o sicrhau Cymru fwy cyfartal.
- 3.5 Roedd yr ychydig o ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cwestiwn hwn yn awgrymu bod 'deddfwriaeth sylweddol ar gyfer gweithio ar y cyd' ar waith eisoes ac nad 'trefniadau statudol yw'r unig ffordd – neu'r ffordd orau – o sicrhau hynny o reidrwydd'.

Dull cynhwysol o sicrhau partneriaeth gymdeithasol

- 3.6 Roedd un o'r prif ystyriaethau a godwyd gan ymatebwyr ar gyfer y cwestiwn hwn yn ymwneud â'r angen i **sicrhau bod y dulliau gweithredu ar gyfer partneriaeth gymdeithasol mor gynhwysol â phosibl**. Er enghraifft, dywedodd un ymatebydd: 'bydd yr uchelgais i sicrhau Cymru fwy cyfartal trwy weithio mewn partneriaeth yn dibynnu ar union natur, strwythur a chyfansoddiad y trefniadau partneriaeth. Mae'n rhaid i'r trefniadau hyn fod mor gynhwysol â phosibl'.

3.7 Roedd llawer o ymatebwyr yn awyddus i ganolbwyntio mwy ar **grwpiau gwarchoddedig a'r rhai sy'n wynebu anghydraddoldebau parhaus ac eang** o fewn y ddeddfwriaeth. Er enghraifft, dadleuodd un ymatebydd nad oedd y papur ymgynghori yn 'mynd i'r afael â'r anghenion a'r materion sy'n ymwneud yn benodol â Chydraddoldeb ac eithrio am y bwriad i gychwyn y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol'. Dadleuodd yr ymatebydd hwn y gallai partneriaethau gymdeithasol fynd i'r afael â'r anfanteision sy'n wynebu 'Nodweddion Gwarchoddedig y Ddeddf Cydraddoldeb' a gofynnodd yn benodol am ystyried y gwahaniaeth y gallai'r cynigion ei wneud i'r rhai sy'n 'wynebu'r anfantais fwyaf ym maes cyflogaeth'. Nodwyd bod y rhain yn cynnwys grwpiau fel:

- pobl anabl sy'n fwy tebygol o weithio mewn swyddi â chyflogau is
- pobl ifanc sy'n fwy tebygol o fod mewn cyflogaeth ansefydlog
- menywod sy'n fwy tebygol o fod mewn galwedigaethau â chyflogau isel ym meysydd gofal, hamdden a gwasanaethau eraill
- lleiafrifoedd ethnig sy'n cael eu tangynrychioli mewn prentisiaethau.

3.8 Roedd thema allweddol arall a godwyd gan ymatebwyr yn ymwneud â diffyg cyfeiriad at y **trydydd sector, a'r gweithlu gwirfoddol** yn benodol. Dadleuodd un ymatebydd nad oedd y cynigion yn ystyried nac yn amddiffyn 'anghenion penodol gweithwyr cyflogedig sy'n gweithio yn y sector gwirfoddol' gan fod y pwyslais ar gyflogwyr, y Llywodraeth a'r undebau llafur.

3.9 Roedd o leiaf dri ymatebydd yn awyddus i bwysleisio bod y trydydd sector yn chwarae rhan bwysicach yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig gwasanaethau gofal gymdeithasol, ond bod y cynigion yn methu ag ystyried ei safbwynt yn ddigonol o ystyried bod aelodaeth undebau llafur yn isel yn y sector. Yn ôl un ymatebydd, gan fod tua wyth y cant o'r boblogaeth o oedran gweithio yng Nghymru yn gweithio yn y sector gwirfoddol, a bod y cynigion yn rhoi pwyslais ar weithio trwy gynrychiolaeth o undebau llafur, ni fyddai'r gweithlu hwn yn cael ei gynrychioli'n dda yn nulliau gweithredu'r bartneriaeth gymdeithasol.

Sefydlu gwaith partneriaeth gymdeithasol ar draws y sector cyhoeddus a hyrwyddo amcanion gwaith teg

3.10 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r cynnig i roi **dyletswydd ar gyrrff cyhoeddus** i roi sylw dyledus i egwyddorion partneriaeth gymdeithasol a hyrwyddo amcan gwaith teg. Dywedodd un ymatebydd ei fod yn croesawu'r cyfle sy'n deillio o'r cynigion i ddatblygu 'dull cyffredin ledled Cymru' gan y byddai hyn yn gwneud pethau'n haws i sefydliadau sy'n gwneud cais wrth ymateb i gyfleoedd cyflawni.

- 3.11 Er eu bod yn croesawu'r cynigion, roedd rhai ymatebwyr, yn enwedig y rhai sy'n cynrychioli'r sector preifat a darparwyr gwasanaethau, yn rhybuddio bod defnyddio buddion cymunedol wrth gaffael gwasanaethau yn ffafrio busnesau mwy, sydd, yn wahanol i BBaCh, 'yn meddu ar y gweithlu a'r gallu ariannol i gefnogi prosiectau cymunedol.' Awgrymodd un ymatebydd y gellid sicrhau mwy o gydraddoldeb yn ystod y broses gaffael e.e. 'pe bai contractau'n pennu tasgau neu ymrwymadau penodol' er mwyn sicrhau mwy o chwarae teg i gynigwyr.
- 3.12 Mynegodd un ymatebydd bryder y gallai gosod dyletswydd ddeddfwriaethol ar gyrrff cyhoeddus eu cyfyngu a thanseilio'r dulliau gweithredu effeithiol yn eu sector ar hyn o bryd: 'Byddem yn pryderu pe bai'r cynigion yn tanseilio'r trefniadau presennol, oherwydd os yw cytundebau partneriaeth gymdeithasol yn cael eu cynnwys mewn deddf, gallant gyfyngu neu oedi dulliau priodol sy'n gweithio'n dda ym maes iechyd ac sydd fel pe baent yn gweithio'n effeithiol ar hyn o bryd. Mae ein cytundebau cyfunol presennol yn seiliedig ar ymddiriedaeth a safbwyntiau cyffredin, ac ar adegau gall y rhain fod yn bragmatig a chael eu cytuno gan wybod, os oes angen hyblygrwydd ac addasu, y gellir cyflawni hyn yn hawdd gyda chyn lleied o fiwrocratiaeth â phosibl.'
- 3.13 Roedd eraill o'r farn fod cyflwyno dyletswydd gaffael sy'n ystyried materion cymdeithasol yn gyfle i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau parhaus ac eang, cyn belled â'i bod yn cynnwys y gallu i: 'fynd i'r afael â chyflogau isel yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol; cynyddu cyfranogiad grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn prentisiaethau; [a] mynd i'r afael â chyflogaeth ansefydlog ym meysydd gwasanaethau cyhoeddus fel addysg, iechyd a gofal cymdeithasol'.
- Defnyddio grym y pwrs cyhoeddus i hyrwyddo partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg**
- 3.14 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion i ddefnyddio grym y pwrs cyhoeddus i hyrwyddo amcanion partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg, yn enwedig o ystyried y farn mai dim ond ychydig o enghreifftiau effeithiol sydd o ganlyniadau cymdeithasol yn cael eu hystyried yn ystyrion fel rhan o ymarferion caffael cyhoeddus ar hyn o bryd.
- 3.15 Roedd un ymatebydd yn credu y dylai unrhyw ofynion o dan ddyletswydd o'r fath 'fod yn gymesur â chapasiti, natur y gweithrediadau ac effaith debygol y cyrrff hyn.'
- 3.16 O ran defnyddio arian cyhoeddus i hyrwyddo partneriaeth gymdeithasol, cynigiwyd rhai pwyntiau perthnasol mewn perthynas ag arian Llywodraeth Cymru. Roedd y pwyntiau hyn yn cynnwys yr angen i Lywodraeth Cymru arwain drwy esiampl a datrys yr heriau sy'n wynebu'r trydydd sector a'r sector gwirfoddol o ganlyniad i gyllid tymor byr cyfredol. Roedd rhai'n dadlau bod cyllid tymor byr ar gyfer y trydydd sector yn creu heriau o ran cadw staff yn

ogystal â chontractau cyflogaeth ansefydlog. Hefyd, nododd ymatebwyr fod cyflogau'n tueddu i fod yn isel ledled y sector elusennol.

4. Deddfwriaeth i orfodi cydymffurfiaeth

Canfyddiadau allweddol

- Roedd dros hanner yr ymatebwyr naill ai'n anghytuno bod angen deddfwriaeth i orfodi penderfyniadau neu'n codi pryderon ynglŷn â sut y byddai'n gweithio'n ymarferol, gan ofyn am ragor o wybodaeth a rhagor o waith datblygu ar yr agwedd hon ar y ddeddfwriaeth cyn y gallent ei chefnogi
- Roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod gorfodaeth yn mynd yn erbyn egwyddorion craidd partneriaeth, ac roedd yn well ganddynt ddull sy'n ysgogi cydymffurfiaeth
- Hefyd, roedd yr ymatebwyr yn pryderu am y posibilrwydd y gallai canlyniadau anfwriadol ddeillio o orfodi cydymffurfiaeth, gan gynnwys cosbau, yn enwedig mewn achosion lle y gallai gwasanaethau cyhoeddus gael eu heffeithio'n negyddol, a lle y byddai sefydliadau llai yn ysgwyddo baich rhy drwm
- Roedd yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r angen am ddeddfwriaeth i orfodi cydymffurfiaeth yn dymuno i'r ddeddfwriaeth fod yn gymesur ac yn rhesymol, gyda chosbau'n rhan o becyn cymorth ehangach o ddulliau gorfodi i'w defnyddio fel cam olaf.

4.1 Mae'r bennod hon yn ystyried ymatebion yr ymgynghoriad i Gwestiwn 3: *'A ydych yn credu y dylem gyflwyno deddfwriaeth i orfodi'r penderfyniadau a wneir drwy bartneriaeth gymdeithasol, a pha fath o gamau gorfodi y gellid eu cynnwys?'*

4.2 Mae Tabl 4.1 yn dangos bod dros hanner yr ymatebwyr naill ai'n anghytuno â'r angen i ddeddfu i orfodi penderfyniadau neu'n codi sawl mater o ran sut y byddai hyn yn gweithio'n ymarferol. Roedd ychydig o dan draean (17 o 55) o'r ymatebwyr yn credu bod angen deddfwriaeth i orfodi penderfyniadau.

Tabl 4.1: Ymatebwyr a oedd yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i orfodi'r penderfyniadau a wneir drwy bartneriaeth gymdeithasol

A ydych yn credu y dylem gyflwyno deddfwriaeth i orfodi'r penderfyniadau a wneir drwy bartneriaeth gymdeithasol, a pha fath o gamau gorfodi y gellid eu cynnwys?	Nifer yr ymatebwyr
Ydw	17
Nac ydw	22
Aneglur/dim ateb pendant	11
Dim ymateb	5

- 4.3 O'r rhai a oedd yn cytuno'n glir â'r cynigion i gyflwyno deddfwriaeth i orfodi penderfyniadau, roedd y rhesymau a nodwyd yn cynnwys y byddai'n diogelu gweithwyr ac yn 'dylanwadu ar sut mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu gwariant cyhoeddus a sut mae nwyddau a gwasanaethau yn cael eu caffael'. Yn yr un modd, roedd ymatebydd arall yn teimlo pe na bai modd sicrhau tegwch yn wirfoddol, 'dyma'r unig ffordd y gallai partneriaethau cymdeithasol amddiffyn llesiant a hawliau gweithwyr.'
- 4.4 Roedd ymatebwyr eraill yn teimlo bod cynnwys prosesau gorfodi mewn deddfwriaeth **yn hanfodol ac yn angenrheidiol** i sicrhau newid ystyrion a'r effaith ddymunol, gan 'anfon neges glir' bod partneriaeth gymdeithasol yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Hefyd, roedd un o'r ymatebwyr hyn yn teimlo bod diffyg mesurau gorfodi yn creu sefyllfa anghyfartal ledled Cymru a bod angen i gyrrff cyhoeddus fod yn atebol.
- 4.5 Dywedodd llawer o'r rhai a oedd yn cytuno'n bendant â'r angen i gyflwyno deddfwriaeth ar gyfer gorfodi bod angen i hyn fod yn '**gymesur**' ac yn '**rhesymol**', gan gynnal unrhyw ymchwiliadau 'mewn modd agored a thryloyw'. Hefyd, nodwyd ei bod yn bwysig bod cyrrff cyhoeddus yn cael digon o adnoddau i gyflawni eu dyletswyddau 'o ran arbenigedd, sgiliau, amser, gallu, arweiniad ac adnoddau ariannol'.

Yn groes i egwyddorion sylfaenol partneriaeth

- 4.6 Roedd tua wyth o ymatebwyr a deimlai nad oedd angen deddfwriaeth i orfodi wedi gofyn am lawer mwy o fanylion am yr hyn y byddai gorfodi yn ei olygu yn ymarferol. Roedd pedwar ymatebydd arall o'r farn nad oedd unrhyw achos rhesymedig wedi'i wneud, nad oedd prosesau gorfodi yn ddymunol nac yn ymarferol, ac y byddai cyflwyno deddfwriaeth i orfodi cydymffurfiaeth yn 'tanseilio cysylltiadau presennol, yn ychwanegu biwrocratiaeth ddiangen ac yn atal creadigrwydd ac arloesi'.
- 4.7 Pwysleisiodd ymatebwyr, yn enwedig awdurdodau lleol, fod eu harferion caffael eisoes yn ystyried gwerthoedd cymdeithasol, ac roeddent yn cwestiynu'r angen am orfodaeth. Nododd sawl ymatebydd eu bod yn mabwysiadu'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi a bod rhaglenni caffael eisoes ar waith ganddynt.
- 4.8 Roedd chwe ymatebydd yn teimlo bod angen **rhoi cynnig ar ddull gweithredu gwirfoddol, cydweithredol yn gyntaf**, ac y dylai'r broses o gyflwyno'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol fod yn seiliedig ar nodau ac amcanion clir. Wedyn, os nad oedd hynny'n gweithio yn ôl y disgwyl, dylid ystyried a datblygu deddfwriaeth i orfodi cydymffurfiaeth yn ddiweddarach, fel dewis olaf, os oedd angen gwneud hynny yn y pen draw.

4.9 Roedd tua chwe ymatebydd yn credu bod gorfodaeth yn **'mynd yn groes i'r ysbryd o weithio mewn partneriaeth'** ac nad yw 'partneriaeth wirioneddol yn ymwneud â gorfodaeth'. Awgrymodd dau ymatebydd y dylai'r ddeddfwriaeth fod yn seiliedig ar yr egwyddor o wobrwyo a chymell yn hytrach na 'chosbi ymddygiad gwael'.

Cosbau gorfodi

4.10 Nid oedd llawer o gefnogaeth i gyflwyno dulliau gorfodi fel cosbau ariannol:

'nid ydym yn cytuno bod cosb ariannol am beidio â chydymffurfio yn gam gofynnol. Gallai fod yn wrthgynhyrchiol.'

4.11 Roedd sawl ymatebydd yn pryderu y byddai defnyddio sancsiynau yn 'cosbi gwasanaethau cyhoeddus a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu' yn hytrach na 'chymell cydymffurfiaeth' a newid ymddygiad neu ddiwylliant sefydliadol, sef amcan partneriaethau cymdeithasol yn y pen draw.

4.12 Yn wir, roedd sawl ymatebydd yn mynegi **pryderon am 'ganlyniadau anfwriadol'** cosbau, gan nodi y gallent:

- gael effaith ar ddefnyddio contractau dim oriau, yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, hyd yn oed os yw 'hyblygrwydd amodau gwaith o'r fath yn darparu hyblygrwydd ar gyfer gweithwyr sydd â chyfrifoldebau gofal plant a gofal, sy'n eu galluogi i gyfuno cyflogaeth a manteisio ar eu hincwm' neu y gallent 'roi mwy o straen ar y farchnad gofal cymdeithasol sy'n fregus iawn'
- 'gwneud i bobl deimlo'n ddrwgdybus a nerfus am effaith ymrwymo i gytundebau' a 'theimlo bod gormod o rwystrau arnynt ... i roi cynnig ar bethau newydd'
- creu 'ofn gwirioneddol' o wynebu cosb, gan wneud cyrff cyhoeddus yn llai tebygol o geisio sicrhau partneriaeth gydweithredol a mynd yn llawer mwy rhagnodol ynglŷn â'r hyn y maent yn ei ddisgwyl gan ofynion caffael
- cael effaith niweidiol ar ddarparu gwasanaethau neu doriadau i gyllidebau gwasanaethau
- bod yn 'system reoleiddio aneffeithiol a fyddai'n atal llawer o BBaChau rhag ymgysylltu', ac y byddai angen iddynt ystyried gwahaniaethau ar draws sectorau a maint sefydliadau a busnesau
- cyrraedd sefyllfa lle mai 'dim ond cwmnïau mwy o ran maint sydd ag adrannau AD a fydd yn gallu cystadlu am gontractau cyhoeddus'.

4.13 Roedd rhai o'r ymatebwyr yn lled-groesawu'r syniad o gyflwyno cosbau ac yn credu y gallai fod yn briodol fel **'adnodd allweddol yn yr arfogaeth orfodi'** lle nad oedd sefydliadau'n bodloni eu rhwymedigaethau partneriaeth gymdeithasol. Fodd bynnag, rhybuddiodd rhai ymatebwyr y gellid ei ystyried yn 'ddull aneffeithiol' a bod angen gwneud llawer o waith i sicrhau bod agweddau cydymffurfio/gorfodi'r Ddeddf yn 'addas i'r diben'. Roedd llawer o ymatebion o'r fath yn dadlau y byddai cosbau gorfodi yn gweithio ar yr amodau canlynol:

- bod 'trefniadau cadarn ar waith ar gyfer monitro cydymffurfiaeth'
- bod sefydliadau preifat a sefydliadau cyhoeddus yn atebol yn yr un modd, neu y dylai fod yn rhan o ystod o sancsiynau, ar gyfer cyrff cyhoeddus a chyrff nad ydynt yn gyrrff cyhoeddus sy'n derbyn cymorth cyhoeddus neu'n rhoi contractau cyhoeddus ar waith
- bod cefnogaeth briodol neu gapasiti digonol ar gael i hwyluso cydymffurfiaeth, yn enwedig ar gyfer sefydliadau llai o ran maint
- bod y fframwaith gorfodi yn ddigon hyblyg i adlewyrchu amodau lleol ac amodau'r sectorau.

4.14 Mewn achosion o roi dirwyon, awgrymodd dau ymatebydd y dylid defnyddio'r arian i 'liniaru' yn erbyn y canlyniadau anfwriadol neu gael eu defnyddio i helpu partneriaethau cymdeithasol gweithredol i wella eu gwasanaethau. Awgrymodd ymatebydd arall y gallai adolygiad barnwrol, yn hytrach na dirwyon, fod yn ddewis gweithredu gwell gan ei fod yn cynnwys niwed i enw da ac felly'n adnodd mwy effeithiol.

5. Meysydd ar gyfer deddfwriaeth

Canfyddiadau allweddol

- Roedd bron i ddwy ran o dair o'r ymatebwyr yn teimlo bod y meysydd cywir yn cael eu hystyried ar gyfer deddfwriaeth
- Mae angen mwy o eglurder ynglŷn â rôl, cwmpas ac aelodaeth y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol
- Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cytuno ag egwyddorion arfaethedig y Partneriaeth Gymdeithasol a'r ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol a hyrwyddo amcanion gwaith teg
- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r ddyletswydd ar gyfer caffael cymdeithasol yn credu bod ganddi'r potensial i gefnogi cymunedau Cymru a darparu cyfleoedd i fusnesau (yn enwedig BBaCh) yng Nghymru cyn belled â'i bod yn gadarn a heb fod yn rhy anhyblyg.

- 5.1 Mae'r bennod hon yn ystyried ymatebion yr ymgynghoriad i Gwestiwn 4: *'Ai dyma'r meysydd cywir ar gyfer deddfwriaeth i gyflawni ein cynigion i atgyfnerthu trefniadau partneriaeth gymdeithasol a sefydlu egwyddorion gwaith teg ledled Cymru?'*
- 5.2 Mae'r meysydd ar gyfer deddfwriaeth wedi'u crynhoi yn y ddogfen ymgynghori fel a ganlyn:
- sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol
 - datblygu 'egwyddorion Partneriaeth Gymdeithasol'
 - cyflwyno dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol ac i hyrwyddo amcanion gwaith teg
 - rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gaffael mewn modd sy'n ystyried materion cymdeithasol (lle bo hynny'n ymarferol).
- 5.3 Mae Tabl 5.1 yn dangos bod bron i ddwy ran o dair o'r ymatebwyr o'r farn mai'r rhain oedd y meysydd cywir ar gyfer deddfwriaeth sy'n cael eu trafod yn y Papur Gwyn. Serch hynny, er i rai o'r ymatebwyr hyn nodi eu bod yn cytuno â'r meysydd, roeddent am weld rhai amodau neu welliannau'n cael eu rhoi ar waith cyn cefnogi'r deddfwriaeth yn llawn. Roedd rhai o'r rhai a oedd yn anghytuno yn credu bod y meysydd cywir yn cael eu hystyried ond nad oedd angen cyflwyno deddfwriaeth i gyflawni'r amcanion.

Tabl 5.1: Ymatebwyr a oedd yn cytuno bod y meysydd cywir ar gyfer deddfwriaeth wedi'u cynnig yn y Papur Gwyn

Ai dyma'r meysydd cywir ar gyfer deddfwriaeth i gyflawni ein cynigion i atgyfnerthu trefniadau partneriaeth gymdeithasol a sefydlu egwyddorion gwaith teg ledled Cymru?	Nifer yr ymatebwyr
Cytuno	33
Anghytuno	9
Aneglur/dim ateb pendant	8
Dim ymateb	5
Cyfanswm	55

- 5.4 Roedd sawl ymatebydd a oedd yn cytuno'n bendant â'r cwestiwn yn parhau i nodi bod angen i'r Bil fod yn 'gymesur', 'ychwanegu gwerth', osgoi 'baich gweinyddol a chymhlethdod diangen' a chynnwys 'trefniadau monitro, adrodd a chydymffurfio addas'.
- 5.5 Roedd un ymatebydd yn cytuno â'r meysydd ar gyfer deddfwriaeth ond yn teimlo bod 'atebion cymharol draddodiadol' yn cael eu hawgrymu. Roedd am weld lle yn cael ei greu lle y gallai sefydliadau fynd ymhellach gan arloesi a chreu atebion newydd. Roedd ymatebydd arall yn teimlo y gellid dysgu gwersi o gyflwyno Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i'r deddfwriaeth a'r broses orfodi.
- 5.6 Awgrymodd un ymatebydd y byddai'r broses o ymgymryd â'r ddyletswydd asesu cydraddoldeb yn darparu'r wybodaeth ofynnol ynglŷn ag ai dyma'r meysydd cywir ar gyfer deddfwriaeth.

Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol

- 5.7 O safbwynt cytuno â'r angen i sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, roedd y rhai a ymatebodd i Gwestiwn 4 yn nodi nifer o bwyntiau sydd eisoes wedi'u gwneud, sef:
- byddai'r Bil yn gyfle i symleiddio'r trefniadau partneriaeth gymdeithasol sydd eisoes ar waith ac asesu eu gwerth
 - mae angen mwy o fanylion am sut y byddai'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn cyflawni neu'n uno swyddogaethau blaenorol Cyngor Datblygu'r Economi a Chyngor Partneriaeth y Gweithlu

- mae angen mwy o eglurder ynglŷn â chwmpas, swyddogaeth a chyfansoddiad y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, gan gynnwys nifer y seddi ar y Cyngor arfaethedig, hyd gwasanaeth yr aelodau a rheolau penodi/ethol.

5.8 Roedd un ymatebydd yn teimlo y dylai'r geiriad yn ymwneud â'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ragori ar 'gefnogi ac annog yr arferion gorau ' ac y dylai gynnwys swyddogaeth i roi arferion gorau ar waith (o dan adran 89).

Egwyddorion Partneriaeth Gymdeithasol a dyletswydd cyrff cyhoeddus i hyrwyddo gwaith teg

5.9 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cytuno ag egwyddorion y bartneriaeth gymdeithasol sydd wedi'u hamlinellu ar gyfer y ddeddfwriaeth arfaethedig ac yn credu eu bod yn rhesymegol. Awgrymodd un ymatebydd y gellid defnyddio egwyddorion gwaith teg yn uniongyrchol wrth gofrestru ac arolygu darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

5.10 O ran y ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus, codwyd rhai materion gan gynnwys:

- mae angen i'r ddyletswydd sector cyhoeddus fod yn glir y dylai mathau eraill o gymorth fel grantiau neu ad-daliadau treth sicrhau canlyniadau gwaith teg hefyd
- diffyg eglurder ynglŷn â chwmpas dyletswyddau partneriaeth; mae'r rhestr o gyrff cyhoeddus yn Atodiad A yn cynnwys cyrff y GIG a Llywodraeth Leol ar hyn o bryd ond nid yw'n cynnwys yr heddlu, cydbwyllgorau, cydbwyllgorau corfforaethol a Gweinidogion Cymru
- mae gan gyrff cyhoeddus gyfrifoldebau statudol eisoes o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol arfaethedig sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.

Dyletswydd cyrff cyhoeddus i arfer caffael cymdeithasol

5.11 Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau a wnaed am y ddyletswydd caffael cymdeithasol yn cytuno (cyn belled â bod y ddyletswydd yn 'gadarn' ac yn 'heriol') ei bod yn gyfle gwyb i brif ffrydio arferion da presennol ym maes caffael mewn ffordd a allai gynyddu gwerth economaidd a chymdeithasol, gwneud gwahaniaethau pendant i gymunedau ledled Cymru, helpu BBaCh i ffynnu a chysylltu ag agenda'r economi sylfaenol. Rhybuddiodd tri ymatebydd na ddylid ystyried bod caffael yn ateb i sicrhau gwaith teg ac na ddylai'r ddyletswydd fod yn rhy anhyblyg fel ei bod yn creu rhwystrau a fyddai'n atal busnesau Cymru rhag gallu cystadlu, yn enwedig busnesau bach.

5.12 Roedd tri ymateb yn teimlo bod angen cryfhau'r geiriad a dileu'r cymal 'lle bo'n ymarferol'.

6. Costau sy'n gysylltiedig â'r cynigion

Canfyddiadau allweddol

- Bydd angen ariannu swyddogaethau sefydliadol ychwanegol fel caffael, gweinyddu, monitro ac adrodd
- Bydd angen cyflogi a hyfforddi staff ychwanegol i ymgymryd â thasgau cydlynu a chynrychioli, fel bod pob un o'r sefydliadau partner cymdeithasol yn gallu ymgysylltu â'r agenda
- Bydd cyflwyno'r Cyflog Byw Go lawn yn creu costau ychwanegol i sefydliadau, yn enwedig darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol
- Roedd yr ymatebwyr o'r farn y dylai'r costau ychwanegol hyn gael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru.

6.1 Mae'r bennod hon yn ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 5 yn y ddogfen ymgynghori: *'A oes unrhyw gostau penodol neu ychwanegol yn gysylltiedig â'r cynigion arfaethedig yr hoffech dynnu sylw atynt?'* Fel y nodir yn Nhabl 6.1, nododd dwy ran o bump o'r ymatebwyr (22 o 55) gostau penodol a fyddai'n gysylltiedig â'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y rhain yn ymwneud â chostau a fyddai'n cael eu hysgwyo gan eu sefydliad eu hunain. Ychydig iawn o ymatebwyr (saith) a oedd yn credu na fyddai unrhyw gostau'n cael eu creu. Roedd gweddill yr ymatebwyr wedi methu ymateb yn uniongyrchol i'r cwestiwn hwn neu wedi methu rhoi ateb pendant.

Tabl 6.1: Ymatebwyr a nododd unrhyw gostau penodol neu ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r cynigion

A oes unrhyw gostau penodol neu ychwanegol yn gysylltiedig â'r cynigion arfaethedig yr hoffech dynnu sylw atynt?	Nifer yr ymatebwyr
Oes	22
Nac oes	7
Aneglur/dim ateb pendant	10
Dim ymateb	16
Cyfanswm	55

6.2 Wrth ymateb i'r cwestiwn hwn, roedd ymatebwyr yn canolbwyntio ar natur y costau ychwanegol, ac er mai ychydig iawn o ddata a gyflwynwyd ynglŷn â graddfa'r costau a

fyddai'n codi, roedd rhai'n awgrymu y byddai'r costau'n sylweddol. Dadleuodd un ymatebydd y byddai'n amhosibl ceisio meintioli costau o ystyried y diffyg gwybodaeth am y cam hwn o'r broses.

6.3 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr am i Lywodraeth Cymru ariannu unrhyw gostau ychwanegol yn briodol. Er enghraifft, dadleuodd un o'r ymatebwyr hyn:

'mae rhai o'r awgrymiadau gwaith teg yn y ddogfen hon yn debygol o gynnwys gwariant/adnoddau ychwanegol a byddai angen cymorth ariannol ar gyfer hyn'.

6.4 Rhagwelwyd y byddai awdurdodau lleol yn ysgwyddo costau ychwanegol sylweddol, a phe na bai Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ychwanegol, roedd rhai ALLau yn pryderu'n fawr y byddai'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddargyfeirio:

'adnoddau sydd eisoes yn brin oddi wrth weithgareddau partneriaeth gymdeithasol dilys tuag at gydymffurfiaeth a seilwaith gweinyddol'.

6.5 Yn y cyswllt hwn, pwysleisiwyd eto bod angen i ddeddfwriaeth a chanllawiau fod yn 'gymesur' â chylch gwaith a graddfa cyrff cyhoeddus er mwyn sicrhau bod modd rheoli costau.

6.6 Roedd natur y costau ychwanegol a nodwyd ar gyfer **sefydliadau'r sector cyhoeddus** yn cynnwys:

- costau sy'n gysylltiedig â chaffael, a nodwyd gan bedwar ymatebydd, megis adnoddau ar gyfer swyddogaethau caffael gan gynnwys 'datblygu canllawiau, cynyddu'r broses o reoli contractau, cefnogi a chynghori cytundebau cadwyn gyflenwi ' yn ogystal â datblygu strategaethau caffael
- costau sy'n gysylltiedig â gwneud gwaith cefn swyddfa a thasgau gweinyddol y byddai sefydliadau yn eu hysgwyddo, yn enwedig o ystyried bod yr adnoddau hyn wedi lleihau yn sgil y toriadau ariannol diweddar
- tasgau monitro ac adrodd, gan gynnwys y costau sy'n gysylltiedig â pharatoi adroddiadau blynyddol ar weithredu
- costau cyfieithu sy'n gysylltiedig â gweithgareddau caffael.

6.7 Fodd bynnag, awgrymodd dau ymatebydd y gellid lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â chaffael pe bai strategaeth a dull caffael cyffredin yn cael eu datblygu yn hytrach na bod pob corff cyhoeddus yn datblygu ei fecanwaith ei hun.

6.8 Dywedodd tua phump o'r ymatebwyr y byddai cyflwyno mentrau fel y **Cyflog Byw Go Iawn** yn creu costau ychwanegol i'w sefydliad eu hunain neu sefydliadau eraill. Roedd un o'r ymatebwyr hyn yn rhagweld y byddai cyflenwyr yn cynyddu eu ffioedd wrth dendro am waith

er mwyn bodloni'r amodau a osodwyd gan y sefydliad caffael ynglŷn â'r Cyflog Byw, ac y byddai hyn yn arwain at gostau uwch i'r sefydliad sector cyhoeddus.

- 6.9 Nodwyd bod y broses o gyflwyno'r Cyflog Byw Go lawn yn berthnasol i ddarparwyr yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, a gofynnwyd i Lywodraeth Cymru ariannu'r sector iechyd a gofal cymdeithasol fel bod modd ei gyflwyno. Er na wnaeth y tri ymatebydd hyn gyfeirio at unrhyw gostau penodol, awgrymodd un bod y costau bras i gyflwyno cyflog byw'r Living Wage Foundation ar gyfer gweithlu'r sector preifat a'r trydydd sector ychydig flynyddoedd yn ôl yn £30m, ond y byddai'r costau hyn wedi cynyddu ers hynny. Soniodd ymatebydd arall am fforddiadwyedd cyflwyno'r cynigion mewn lleoliadau'r trydydd sector a'r sector cymunedol sy'n darparu gwasanaethau i'r sector cyhoeddus:

'Er na fydd hyn yn cael effaith uniongyrchol arnom ni yn y GIG, mae'n debygol o olygu y bydd mwy o ddarparwyr gofal mewn perygl o fynd yn fethdalwyr wrth geisio bodloni'r gofynion, a fydd yn cael effaith negyddol ar y system yn fwy hirdymor.'

- 6.10 Roedd thema arall a godwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn ymwneud â **goblygiadau ariannu rolau ychwanegol a chynyddu sgiliau/hyfforddi deiliaid swyddi** i gyflawni'r dyletswyddau hyn. Roedd pum ymateb yn trafod y thema hon. Nodwyd y byddai cyflawni'r dyletswyddau yn ei gwneud yn ofynnol i greu rolau ychwanegol, newydd o fewn sefydliadau, megis 'swyddi cydgysylltwyr' mewn awdurdodau lleol. Nododd ymatebion eraill gostau ychwanegol yn ymwneud â chefnogi a hyfforddi staff, yn ogystal â threfnu amser i ffwrdd ar gyfer stiwardiaid undebau llafur, er y gobeithid y byddai'r buddsoddiad hwn yn fuddiol.
- 6.11 Nododd dau ymatebydd fod gan sefydliadau partneriaid cymdeithasol lefelau gwahanol o allu i ymgysylltu â gweithgarwch partneriaeth gymdeithasol ac efallai na fyddai gan rai ohonynt yr adnoddau staffio i ymgysylltu â'r broses, gan arwain at eu hymddieithrio o bosibl. Gofynnodd un ymatebydd am 'helpu i ariannu gallu'r sefydliadau cyflogwyr ac undebau ar y cyd er mwyn cydgysylltu a chefnogi'r broses o gymryd rhan mewn model partneriaeth gymdeithasol cryfach'.
- 6.12 Mewn modd tebyg, roedd un ymatebydd yn credu y dylid rhoi ystyriaeth i allu cyflogwyr yn fwy cyffredinol i ymgysylltu â'r agenda partneriaeth gymdeithasol hon. Dadleuodd yr ymatebydd hwn fod angen cyllid ar gyfer swyddogaeth cyflogwyr yn y cyswllt hwn er mwyn:
- 'ceisio cael consensws ar gyfer y ffordd ymlaen o fewn a rhwng sectorau a chydweithio wedyn i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o faterion a safbwyntiau. Mae hon yn dasg sylweddol a fyddai'n gofyn am fuddsoddi a chydgyssylltu ar ran cyflogwyr.'

6.13 Dadleuodd un ymatebydd y gallai costau ychwanegol gael eu hysgwyddo pe bai'n ofynnol i sefydliadau sector cyhoeddus **symud i ffwrdd o ddefnyddio staff ar gontractau dim oriau**. Dywedodd yr ymatebydd hwn fod y gweithwyr hyn yn dewis y math hwn o gontract yn wirfoddol gyda'u sefydliad, gan ddadlau:

'mewn gwirionedd rydym yn ddibynnol iawn yn y GIG ar weithlu a ddefnyddir dros dro. Os yw egwyddorion a bennir gan ddeddfwriaeth yn ceisio amddiffyn a sicrhau manteision statudol i weithwyr, gallai hyn olygu bod gormod o fiwrocratiaeth i ni allu rheoli hyn yn effeithiol o fewn yr amser sydd ei angen arnom i sicrhau bod gofal cleifion yn cael ei ddarparu'n ddiogel'.

6.14 Ychydig iawn o adborth a gafwyd gan ymatebwyr nad oeddent yn credu y byddai unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu hysgwyddo o ganlyniad i'r cynigion. Nododd un o'r rhain, sef un o sefydliadau'r GIG, nad oedd yn rhagweld y byddai costau ychwanegol yn deillio i'r cynigion am ei fod eisoes yn gweithredu polisiau arfer gorau ym maes cyflogaeth, fel darparu'r cyflog byw cenedlaethol, codiadau cyflog sy'n uwch na chwyddiant ar brydiau i'r rhai mewn bandiau cyflogau is, a thelerau ac amodau uwch i'r rhai mewn bandiau cyflogau is. Nododd grŵp cynrychioli busnes arall 'nad oedd yn rhagweld unrhyw gostau ychwanegol i fusnesau', ond yn yr achos hwn, roedd yn rhybuddio y gallai ysgwyddo 'costau cyfle o ran cyfoeth a chyflogaeth yn y gymuned leol os yw'r meini prawf yn rhy anhyblyg'.

7. Effeithiau ar y Gymraeg

Canfyddiadau allweddol

- Gallai'r cynigion gael effaith gadarnhaol, yn hytrach na negyddol, ar yr iaith Gymraeg, a nodwyd sawl cyfle posibl
- Mae angen i'r Gymraeg gael ei hadlewyrchu'n benodol o fewn deddfwriaeth partneriaeth gymdeithasol
- Dylai prosesau caffael partneriaeth gymdeithasol nodi'r gofynion penodol o safbwynt darpariaeth a gwasanaethau Cymraeg.

7.1 O dan ofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd i ystyried effeithiau ei phenderfyniadau polisi ar y Gymraeg.

7.2 Mae'r bennod hon yn ystyried ymatebion i ddau gwestiwn a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori:

- A. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai 'Cymru Fwy Cyfartal: Atgyfnerthu Partneriaeth Gymdeithasol' yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau allai fod, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?
- B. Eglurwch hefyd sut ydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig 'Cymru Fwy Cyfartal: Atgyfnerthu Partneriaeth Gymdeithasol' gael ei lunio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

7.3 Derbyniwyd cyfanswm o 21 o ymatebion i'r cwestiwn cyntaf ac 11 i'r ail gwestiwn. Nododd tri ymatebydd yn benodol na allent wneud sylw'r naill ffordd na'r llall, a dywedodd dau ymatebydd arall na fyddai'r cynigion yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg.

Effeithiau posibl ar y Gymraeg

7.4 Roedd y rhan fwyaf o'r 16 o ymatebwyr eraill a wnaeth sylw ar y naill gwestiwn neu'r llall yn credu y **gallai'r cynigion gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg**.

- 7.5 Cafwyd cais cryf am i'r **Gymraeg gael ei hadlewyrchu'n benodol o fewn deddfwriaeth partneriaeth gymdeithasol** gan ei bod yn gwneud cyfraniad hanfodol at waith teg a chydaddoldeb cymdeithasol. Dywedodd dau ymatebydd:
- 'dylai dyletswyddau gwaith teg a chaffael cymdeithasol sefydliadau'r sector cyhoeddus gynnwys ymrwymiad i helpu i ddatblygu a defnyddio'r Gymraeg fel rhan benodol o'r ddeddfwriaeth'.
- 'mae cynnwys ystyriaethau o ran y Gymraeg yn un o ofynion penodol unrhyw broses effeithiol o gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth wrth weithredu yn y maes.'
- 7.6 Un thema allweddol a godwyd gan ymatebwyr oedd **bodolaeth deddfwriaeth bresennol**, a nodwyd na fyddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg oherwydd y ffaith fod cyrff cyhoeddus eisoes wedi'u rhwymo gan ddeddfwriaeth arall, fel Mesur y Gymraeg. Nododd un ymatebydd, er enghraifft, fod hawliau gweithwyr cyflogedig unigol, o dan eu Safonau perthnasol presennol, eisoes wedi'u diogelu.
- 7.7 Roedd un ymatebydd am ddiogelu'r dyletswyddau deddfwriaethol presennol o ganlyniad i'r cynigion:
- 'Roedd cyflwyno Mesur y Gymraeg yn gosod nifer o ofynion ar gyrff cyhoeddus Cymru i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ymysg gweithwyr cyflogedig, ac mewn gweithgareddau allanol trwy gyflwyno Safonau, a orfodir trwy Hysbysiadau Cydymffurfio unigol. Mae'n rhaid inni sicrhau, o leiaf, fod y trefniadau presennol hyn yn cael eu diogelu.'
- 7.8 Fodd bynnag, nodwyd nad yw **Safonau'r Gymraeg yn berthnasol i bob sefydliad yng Nghymru**, ac o ganlyniad awgrymodd un ymatebydd 'fod modd i'r fframwaith Partneriaeth Gymdeithasol gyflwyno dull gweithredu tebyg ond mwy anffurfiol, wedi'i theilwra, ar gyfer y sefydliadau nad yw Mesur y Gymraeg yn berthnasol iddynt ar hyn o bryd'. Hefyd, nododd ymatebwyr fod yr hysbysiadau cydymffurfio sydd ar waith mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg wedi'u teilwra ar gyfer sefydliadau unigol yn dilyn trafodaethau â Chomisiynydd y Gymraeg, felly gall eu dulliau gweithredu amrywio rhywfaint.
- 7.9 Ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol, cyfeiriwyd at y 'Cynnig Rhagweithiol' sy'n cael ei roi ar waith gan sefydliadau fel rhan o'r **strategaeth Mwy na Geiriau**. Dywedodd un ymatebydd:
- 'Bydd yn bwysig bod sefydliadau yn cefnogi eu staff i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg wrth ymgysylltu â chleifion sy'n siarad Cymraeg ac wrth gynnig gwasanaethau lle bynnag y bo modd yn newis iaith yr unigolyn, heb fod angen i'r claf wneud cais penodol am hynny. Cyfeirir

at hyn fel gwneud 'cynnig rhagweithiol' o'r Gymraeg ac mae'n elfen allweddol o Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru: Mwy na Geiriau.'

- 7.10 Hefyd, roedd ymatebydd arall yn credu y byddai'n bwysig i bartneriaethau cymdeithasol ddeall a nodi proffil ieithyddol y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu a 'chylwyno ymyraethau sy'n diogelu natur ieithyddol a threftadaeth y gymuned'.

Cynyddu effeithiau cadarnhaol posibl

- 7.11 Roedd y cyfleoedd allweddol a nodwyd gan ymatebwyr ar gyfer cynyddu'r effeithiau cadarnhaol posibl ar y Gymraeg o ganlyniad i'r cynnig yn cynnwys:
- mwy o gyfleoedd i staff ymgysylltu â'u cyflogwyr, eu cydweithwyr a'u cwsmeriaid/defnyddwyr gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg
 - mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gydweithio a gweithio mewn partneriaeth ym maes partneriaeth gymdeithasol e.e. cyfleoedd i gyfrannu at gyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn newis iaith yr unigolyn, sef y Gymraeg neu'r Saesneg
 - sicrhau bod unrhyw wasanaethau sy'n cael eu comisiynu trwy'r dull partneriaeth gymdeithasol yn darparu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio eu hiaith wrth ddefnyddio'r gwasanaeth
 - cyfleoedd i ysgogi'r broses o greu cyflogaeth mewn ardaloedd sydd wedi bod yn dirywio'n economaidd yn yr hirdymor a lle mae'r Gymraeg yn parhau i gael ei siarad yn eang
 - cyfleoedd i greu cyfleoedd gwaith dwyieithog diogel sy'n talu'n deg, i bobl ifanc yn benodol
 - cyfleoedd i gyfrannu at nod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o greu 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.
- 7.12 Pwysleisiodd dau ymatebydd ei bod yn bwysig bod **caffael partneriaeth gymdeithasol yn nodi'r hyn y byddai ei angen o safbwynt darpariaeth a gwasanaethau Cymraeg**. Dyma eu sylwadau:

'Pan mae'r caffael dan sylw ar gyfer gwasanaeth ble mae angen darpariaeth Gymraeg (e.e. er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg), rhaid sicrhau bod hynny'n cael ei amlinellu'n glir, ac mewn ieithwedd briodol yn y dogfennau caffael cychwynnol - a sicrhau bod gofyn am dystiolaeth gwbl ddibynadwy o allu'r cwmnïau sy'n cystadlu am y gwaith i gwrdd â'r gofyniad mewn perthynas â'r Gymraeg.'

'Rhaid rhoi gofynion dwyieithrwydd ar bob caffael cyhoeddus - gan yn aml, mae'r pris rhataf yn cael ei dderbyn o Loegr, ond lle nad yw'r darparwr yn gallu darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg.'

- 7.13 Nododd dau ymatebydd, wrth wneud hynny, fod angen cydnabod **costau caffael uwch**. Yn ôl dehongliad un ymatebydd, roedd hyn yn cynnwys costau cyfieithu ychwanegol e.e. cyfieithu dogfennau tendro o'r Gymraeg i'r Saesneg. Yn ôl dehongliad yr ymatebydd arall, roedd yn cynnwys costau uwch o ganlyniad i'r cynigion i asesu gwerth am arian ar sail meini prawf heblaw am y pris isaf, gan gynnwys defnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg:

Mae'r 'ddogfen ymgynghorol yn cyfeirio at yr angen i "wneud mwy i egluro bod mwy i werth am arian na chael pethau am y pris isaf". Cytunwn yn gyfan gwbl â hynny. Mae sicrhau caffael â phwyslais mwy lleol yn debygol o gael sgil effeithiau cadarnhaol ar fusnesau lleol a'r economi leol, a thrwy hynny mewn canran o achosion ar gwmnïau sy'n defnyddio ac yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.'

8. Themâu ychwanegol nad ydynt yn cael sylw yn y cwestiynau ymgynghori

- 8.1 Mae'r adran hon yn cynnwys dadansoddiad o unrhyw ymatebion a gyfeiriodd at faterion neu themâu nad ydynt yn rhan o'r cwestiynau ymgynghori eu hunain, ond a allai ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol i'w hystyried.
- 8.2 Gofynnodd o leiaf dri ymatebydd gwestiynau am y term 'partneriaeth gymdeithasol'. Nododd un ohonynt nad oedd unrhyw ddiffiniad clir o bartneriaeth gymdeithasol wedi'i gynnwys yn y Papur Gwyn a'i bod yn gysyniad anodd i'w ddiffinio. Awgrymodd diffiniad gwaith posibl: 'mae partneriaid cymdeithasol yn grwpiau sy'n cydweithredu mewn perthynas waith i sicrhau cydraddoldeb cymdeithasol ar gyfer gweithwyr ar draws economi Cymru'.
- 8.3 Awgrymodd ymatebydd arall y byddai 'Bil Gwaith Teg' yn gliriach ac yn haws i'w ddeall i'r cyhoedd yn ehangach, gan gyfleu'n well y prif amcanion sydd i'w cyflawni gan y Bil arfaethedig.
- 8.4 Roedd materion eraill a godwyd gan ymatebwyr unigol yn cynnwys:
- cwestiwn ynglŷn â sut y byddai'r weledigaeth ar gyfer Cymru yn gyson â chynllun Gwaith Da Llywodraeth y DU
 - dymuniad bod unrhyw drefniadau cryfhau ar gyfer partneriaeth gymdeithasol yn ceisio sicrhau dull gweithredu gwell ar gyfer iechyd meddwl yn y gweithle, ochr yn ochr â chyflog a thelerau ac amodau eraill
 - yr angen i gyflwyno canllawiau cysylltiedig ochr yn ochr â'r fframwaith deddfwriaethol yn amlinellu'r disgwyliadau ar gyfer sefydliadau sy'n cyflawni'r ddyletswydd hon
 - angen i ystyried yn fwy gofalus y rhestr o awdurdodau cyhoeddus, a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn benodol, y mae'r Bil arfaethedig yn berthnasol iddynt
 - cais i ehangu a moderneiddio'r swyddogaethau a gyflawnir gan Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru o dan unrhyw system newydd
 - awgrym y dylid edrych ar y system ar gyfer partneriaeth gymdeithasol sydd ar waith ym model Iwerddon er mwyn dysgu o'r profiad
- 8.5 O safbwynt materion mwy ymarferol a godwyd mewn perthynas â'r broses ymgynghori ei hun, roedd sylwadau ymatebwyr unigol yn cynnwys:
- Ystyried yr amseru ac awgrym bod 'ymgysylltu â'r sector dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yn anodd iawn' ac y dylid osgoi gwneud hynny yn y dyfodol, neu y dylid ymestyn y cyfnod ymgynghori i ganiatáu rhagor o amser ar gyfer ymgysylltu

- cais am ymgysylltu pellach/parhaus ar gyfer llunio'r egwyddorion partneriaeth gymdeithasol arfaethedig a thrafod y cynigion â rhanddeiliaid ehangach gan gynnwys Fforwm Partneriaeth y GIG a phartneriaid cymdeithasol ac undebau llafur nad ydynt yn aelodau cyswllt o'r TUC
- cwestiwn ynglŷn â pham y cafodd y cwestiynau Cymraeg eu fformatio fel cwestiynau atodol yn hytrach na'u gwreiddio yn yr ymgynghoriad ei hun, ac a oedd hyn yn awgrymu diffyg cysondeb o ran polisi ac nad oedd y Gymraeg yn cael ei hystyried yn rhan hanfodol o'r broses llunio polisi.

Atodiad A – Rhestr o sefydliadau a ymatebodd

Amgueddfa Cymru
Cyngor Celfyddydau Cymru
Cymdeithas Feddygol Prydain Cymru
Ffederasiwn Cyflenwyr Adeiladwyr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Unsain Caerffili
Cyngor Caerdydd
Cyddfederasiwn Diwydiant Prydain (CBI)
Centre for Progressive Policy
Cyngor Ceredigion
Plant yng Nghymru
Chwarae teg
Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB)
Commerce Cymru
Cyngor Conwy
Rhwydwaith Cydgynhyrchu
Cyngor Llyfrau Cymru
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Ffederasiwn Busnesau Bach
Cyngor Sir y Fflint
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW)
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mind Cymru
Mirus
Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT)
Cyfoeth Naturiol Cymru
Un Llais Cymru
Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS)
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Undeb Cenedlaethol y Gweithwyr Rheilffordd, Morwrol a Thrafnidiaeth (RMT)
Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Gofal Cymdeithasol Cymru
Siambwr Fasnach De a Chanolbarth Cymru
Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi (TISC)
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
Unsain Cymru
Undeb Prifysgol a Cholegau Cymru
Prifysgolion Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru

Canolfan Cydweithredol Cymru
Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD)
Cyngres Undebau Llafur Cymru (TUC)
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
Confederasiwn GIG Cymru

Derbyniwyd 6 ymateb unigol hefyd.